



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Dysgu Cymraeg Caerdydd

**Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd
Adeilad John Percival
Rhodfa Colum
Caerdydd
Cardiff
CF10 3EU**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Caerdydd/Learn Welsh Cardiff

Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Caerdydd (DCC) yn 2016 o ganlyniad i ailstrwythuro sectorol a sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (GDCG). Mae DCC yn un o 11 o ddarparwyr y Ganolfan ac yn gyfrifol am ddarparu cyrsiau Cymraeg i oedolion yn Ninas a Sir Caerdydd. Lleolir DCC o fewn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ac mae Cyfarwyddwr DCC yn atebol i Bennaeth a Bwrdd Ysgol y Gymraeg. Cyflogir holl staff y ddarpariaeth gan y brifysgol.

Mae gan DCC tua 1500 o ddysgwyr unigol dros dreigl o thua thair blynedd gyda niferoedd yn codi i 1824 erbyn mis Ebrill, 2023. Mae'r ddarpariaeth yn derbyn £966,347 trwy grant craidd gan y GDCG. Yn ogystal â'r ddarpariaeth brif ffrwd, mae DCC yn gyfrifol am ddarparu prosiectau atodol, er enghraifft gweithio o fewn cymunedau newydd Caerdydd fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gweithio gyda theuluoedd ac ysgolion, a darparu cyrsiau i sefydliadau amrywiol.

Darperir rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau wyneb-yn-wyneb a rhithwir sy'n amrywio o ran hyd a dwyster. Yn ogystal, darperir rhaglen apelgar o gyrsiau atodol a digwyddiadau cefnogi dysgwyr, er mwyn hwyluso'r daith o ddysgwr i siaradwr gweithredol.

Cyflogir 23 aelod o staff craidd, gan gynnwys 14 tiwtor amser llawn, ynghyd â 35 tiwtor cysylltiol. Cyfarwyddwr DCC sy'n gyfrifol am arwain y ddarpariaeth yn strategol ac yn weithredol, ac mae ganddi dîm rheoli o dri thiwtor hŷn i'w chefnogi, sy'n gyfrifol am Safonau Dysgu ac Addysgu, Ansawdd, Cwricwlwm a Hyfforddiant. Cefnogir y gwaith ymhellach gan y Rheolwr Marchnata a Chefnogi Dysgwyr Rheolwr Busnes; Rheolwr Gweinyddol, a dau weinyddydd.

Crynodeb

Mae DCC yn gymuned gynhwysol a chefnogol ble mae staff yn ymateb yn fwriadus i anghenion dysgwyr y brifddinas a thu hwnt. Mae tiwtoriaid yn meithrin perthnasoedd cynhaliol â'r dysgwyr sy'n eu cefnogi'n llwyddiannus i ddatblygu eu medrau i siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus ac estynedig. Ar gyfartaledd, 34 mlwydd oed yw oedran dysgwyr y darparwr.

Darperir arlwy o gyrsiau prif ffrwd ar lefel mynediad hyd at uwch, gan gynnwys cyrsiau dwys a chyfunol. Yn ogystal, trwy gydweithio hynod lwyddiannus gydag amrywiaeth o bartneriaid, cyflwynir cyrsiau prosiect sydd wedi eu teilwra'n gelfydd i ddiwallu anghenion dysgwyr penodol yn effeithiol. Er enghraifft, darperir cyrsiau i staff Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Pêl-droed Cymru er mwyn eu cefnogi i gyfathrebu'n Gymraeg yn eu swyddi o ddydd i ddydd. Yn ogystal, mae staff Ysgol Feddygaeth Caerdydd yn dysgu Cymraeg mewn gwersi sy'n eu harfogi â geirfa a phatrymau cystrawennol penodol er mwyn iddynt eu defnyddio wrth ymdrin â chleifion. Trwy'r arlwy eang hon, mae dysgwyr ar draws y ddarpariaeth yn datblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol ac yn eu defnyddio'n gynyddol weithredol mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwaith a chymdeithasol.

Un o gryfderau'r darparwr yw'r modd mae tiwtoriaid amser llawn a chysylltiol yn gweithredu'n ddiwyd i wella arferion addysgu a dysgu effeithiol. Trwy gynllunio bwriadus, caiff tiwtoriaid gyfle i drafod ac efelychu arferion addysgu effeithiol trwy gyfrwng y Pwyllgor Ansawdd, Cwricwlwm a Hyfforddiant a thrwy'r dull arsylwi cymar llwyddiannus, er enghraifft. At ei gilydd, mae hyn yn cael effaith gadarn ar ddatblygu a chysoni arferion addysgu a dysgu effeithiol ar draws y ddarpariaeth.

Mae'r tiwtoriaid yn defnyddio'r iaith darged yn hynod effeithiol ac yn hwyluso'r dysgu'n fedrus i gymell dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg heb ofn methu. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi dysgwyr i gyfranogi'n gyson i ddatblygu eu medrau llafar yn hynod lwyddiannus. Mae'r tiwtoriaid yn darparu amser buddiol i'r dysgwyr feddwl a dwyn geirfa a phatrymau cystrawennol i gof sy'n eu hannog i ddyfalbarhau ac yn rhoi'r hyder iddynt siarad Cymraeg yn ddigymell. Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn briodol sy'n cael effaith gyson ar wella eu medrau siarad dros gyfnod.

Mae'r tiwtoriaid yn adnabod anghenion dysgu a lles dysgwyr yn hynod effeithiol fel rhan o'r ddarpariaeth gynhwysol. Mae'r trefniadau cyfathrebu a chaffael barn dysgwyr am wahanol agweddau o'r gwasanaeth yn effeithiol, sy'n hybu eu hawydd i ddysgu a meithrin eu lles yn fedrus, er enghraifft trwy'r dull 'blwch adborth rhithiol'. Mae'r tiwtoriaid yn annog dysgwyr i ymgysylltu'n llawn â digwyddiadau atodol, er enghraifft trwy'r 'Cynllun 'Siarad' lle mae dysgwyr yn cael eu paru ag aelodau'r gymuned er mwyn iddynt ymarfer siarad Cymraeg mewn sgysiau naturiol. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau anffurfiol sy'n cael eu trefnu i hybu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg yn eang, er enghraifft wrth drefnu 'aduniad' yng ngŵyl Tafwyl.

Elfen nodedig o'r darparwr yw'r modd mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain gan gyfarwyddwr angerddol sy'n gweithredu ei gweledigaeth yn hynod effeithiol gyda'r holl bartneriaid. Trwy gynlluniau bwriadus a thîm ymroddedig o staff, caiff blaenoriaethau gwella eu gweithredu a'u gwerthuso'n hynod effeithiol er mwyn gwella

medrau addysgu tiwtoriaid a gwella profiad y dysgwyr. Er enghraifft, mae'r blaenoriaethau'n cael eu datblygu'n effeithiol trwy gyfrwng arlwy dysgu proffesiynol fwriadus, ac yn datblygu medrau addysgu tiwtoriaid yn dda. Trwy'r gefnogaeth gadarn gan diwtoriaid, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, gyda chyfraddau cwblhau y darparwr yn cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Rhagorol
Gofal, cymorth ac arweiniad	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Rhagorol

Argymhellion

- A1 Parhau i rannu arferion addysgu effeithiol ar draws y ddarpariaeth
- A2 Datblygu medrau darllen ac ysgrifennu dysgwyr ymhellach i'w cefnogi i gyflawni hyd orau eu gallu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas ag arweinyddiaeth hynod effeithiol i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae bron bob un o ddysgwyr DCC yn cyfrannu'n frwd yn eu gwersi. Maent yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf ac yn esbonio'n glir eu rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu'n siaradwyr gweithredol sy'n manteisio'n fwriadus ar gyfleoedd i wella a defnyddio eu medrau ieithyddol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau dwys yn gwneud cynnydd cryf neu well.

Nodwedd o gryfder yw'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg â'u tiwtoriaid a'u cyd-ddysgwyr yn ddigymell, heb droi at y Saesneg. Maent yn siarad yn gynyddol hyderus ac yn barod i fentro gyda geiriau a phatrymau cystrawennol amrywiol heb ofni gwneud camgymeriadau. Mae'r rhan fwyaf yn gallu adalw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus a chymhwyso'r wybodaeth honno i sefyllfaoedd gwahanol yn unol â'u lefel.

Mae bron bob dysgwr ar y lefelau gwahanol yn gwrando'n astud ar y tiwtor a'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn gwneud cynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu eu medrau llafar. Maent yn magu hyder i ddysgu a defnyddio patrymau elfennol gan wneud ymdrech yn annibynnol i ymestyn cynnwys eu hatebion. Serch hyn, mae ychydig o'r dysgwyr yn ddihyder a swil wrth gynnig atebion. Yn ogystal, maent yn cael anhawster ynganu ambell air anghyfarwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, o lefel canolradd ymlaen, yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau llafaredd. Maent yn mwynhau siarad yn annibynnol am destunau fel digwyddiadau'r penwythnos. Erbyn cyrraedd lefelau uwch, mae'r dysgwyr hyn yn fwyfwy rhugl i gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth gynnal trafodaethau mewn parau ac fel grŵp cyfan, gan holi ac ateb cwestiynau eu partner yn hwyliog, a siarad yn rhydd ac estynedig ar nifer o bynciau

amrywiol, er enghraifft, 'a fyddai wythnos waith o bedwar diwrnod yn fuddiol?' Mae llawer yn ynganu seiniau a geiriau Cymraeg yn gywir a chllir. Ar y cyfan, ychydig iawn sy'n defnyddio ymadroddion Saesneg fel rhan o'u sgwrs naturiol.

Nodwedd o gryfder yw'r cynnydd a wna dysgwyr yn y gweithle sy'n cynnwys BBC Cymru, sefydliadau amrywiol fel Amgueddfa Cymru a chyrsgwrs Cymraeg yn y Cartref mewn ysgolion. Mae'r dysgwyr hyn yn manteisio ar y gwrsi sydd wedi eu teilwra ar eu cyfer ac yn dysgu a defnyddio geirfa a phatrymau defnyddiol sy'n eu helpu â'u tasgau dyddiol. O ganlyniad, maent yn meithrin hyder i gyfathrebu yn y Gymraeg yn eu gwaith.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn fuddiol. Yn unol â'u lefel, maent yn darllen ar goedd yn addas gan ynganu'n briodol, ar y cyfan. Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn gwneud cynnydd addas wrth ddarllen brawddegau byrion a deialogau syml tra bod y dysgwyr mwyaf profiadol yn gwneud cynnydd cyson wrth ddarllen a thrafod ystod eang o destunau ffeithiol a ffuglen. Mae llawer o'r dysgwyr yn mwynhau darllen ac mae'r clybiau darllen ar bob lefel yn boblogaidd ac yn hyrwyddo medrau darllen dysgwyr yn effeithiol.

Mae llawer o ddysgwyr ar draws y lefelau gwahanol yn datblygu medrau ysgrifennu priodol. Llwydda llawer o ddysgwyr ar lefel canolradd i ysgrifennu at ddibenion ehangach yn effeithiol fel darnau disgrifiadol a chyflwyniadau ar gyfer sefyllfaoedd cymdeithasol a phroffesiynol gwahanol. At ei gilydd, mae ychydig o ddysgwyr ar draws bob lefel yn llai hyderus wrth dreiglo, er enghraifft trwy beidio â threiglo ansoddair ar ôl 'yn' neu dreiglo'n feddal ar ôl arddodiaid. Mae llawer o ddysgwyr lefel uwch a hyfedredd yn ysgrifennu'n gynyddol gywir i fynegi barn ar faterion lleol, er enghraifft effaith diwydiant ar eu hardal. Maent hefyd yn creu darnau mewn ffurfiau gwahanol megis cerddi am y Nadolig neu adrodd chwedlau lleol fel 'Gwrach Porthceri'. Yn yr enghreifftiau gorau, mae dysgwyr ar y lefelau hyn yn ysgrifennu'n arbennig o aeddfed, gydag unigolyn yn ysgrifennu nofel fer, neu'n llwyddo mewn cystadlaethau llenyddol mewn eisteddfodau lleol.

Ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf, mae dros 1500 o ddysgwyr yn cofrestru ar gyrsgwrs darparwr yn flynyddol. Dengys data'r darparwr fod niferoedd ymrestru wedi codi'n gyson ar gyrsgwrs prif ffrwd yn ystod yr un cyfnod, gyda chynnydd o 21% ar gyrsgwrs dechreuwy'r newydd ar lefel mynediad.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y cyfraddau cwblhau, gyda llawer o'r dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau yn sgil cryfhau'r gefnogaeth i'r dysgwyr. Mae pob tiwtor yn derbyn dadansoddiad manwl, fesul cwrs a fesul dysgwr, o'r cyfraddau presenoldeb, bob hanner tymor. Erbyn hyn, mae llawer o'r dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn symud ymlaen i barhau â'u dysgu mewn cyrsiau dilynol sy'n cael eu cyflwyno gan y darparwr. Mae hyn yn dystiolaeth bendant o'r cynnydd ystyrlon a wna'r dysgwyr ac yn dystiolaeth o ymroddiad a hyder dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach. Mae llawer o'r dysgwyr yn mynychu eu cyrsiau'n gyson, gyda phresenoldeb yn gwella ers cyflwyno'r systemau 'dal i fyny'.

Mae nifer y dysgwyr cymwys sy'n dewis sefyll arholiad wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf o oddeutu hanner i draen erbyn 2022 pan gynhaliwyd cyfres lawn o arholiadau Cymraeg i Oedolion gan CBAC am y tro cyntaf ers y pandemig. Fodd

bynag, mae bron bob dysgwr sydd wedi sefyll arholiadau yn llwyddo i ennill cymhwyster, gyda llawer ohonynt yn ennill rhagoriaeth ar y lefelau uwch.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae bron bob dysgwr yn mwynhau dysgu yn y gwersi ac yn gwerthfawrogi'r ystod ddiddorol ac ysgogol o weithgareddau atodol ac anffurfiol. Maent yn gwerthfawrogi awch a chefnogaeth barhaus staff sy'n rhoi hyder iddynt roi cynnig a magu hyder i siarad Cymraeg. Yn ogystal, mae bron bob dysgwr yn frwdfrydig dros ddysgu, ac yn werthfawrogol o arweiniad tiwtoriaid sy'n llwyddo i greu awyrgylch ddiogel, gynhwysol a chefnogol mewn gwersi.

Mae bron bob dysgwr yn gwerthfawrogi'r gynhaliaeth sy'n cael ei darparu trwy systemau gweinyddol allweddol sy'n cefnogi eu lles a'u datblygiad wrth ddysgu Cymraeg. Maent yn elwa o strwythurau mewnol priodol a phwrpasol i sicrhau bod sawl cyfle iddynt gyflwyno gwybodaeth allweddol ynghylch eu hanghenion ac amgylchiadau personol arwyddocaol. Rhennir yr wybodaeth ymhlith staff perthnasol yn ddidramgwydd, gan olygu nad yw'n ofynnol i'r dysgwr ailadrodd gwybodaeth sensitif wrth gofrestru ar gwrs newydd. Yn ogystal, mae bron bob dysgwr yn manteisio ar gwblhau awdit blynyddol o'u hanghenion dysgu sy'n cefnogi arweinwyr i gynllunio adnoddau a hyfforddiant i staff. Mae hyn yn ei dro yn cyfoethogi profiad cadarnhaol dysgwyr o ddysgu Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa o drefniadau sy'n atgyfnerthu eu hagweddau at les a'u datblygiad wrth ddysgu ar bob lefel. Maent yn gwerthfawrogi'r buddsoddiad mewn system archebu ar-lein sy'n eu galluogi i drefnu amser cyfleus i dderbyn cefnogaeth, er enghraifft sesiwn 'gwirio lefel' neu wrth dderbyn sesiwn gefnogol unigol gyda thiwtor i adolygu gwaith a gollwyd. Rhennir y cyfrifoldeb hwn ar draws y tîm addysgu, gyda phob tiwtor yn neilltuo awr yr wythnos gan sicrhau argaeledd gwasanaeth cefnogi. Mae bron bob dysgwr yn falch o'r gefnogaeth hon sy'n cefnogi'r dysgu ar bob lefel ac yn cynnal eu lles yn effeithiol.

Mae llawer o ddysgwyr yn manteisio ar y 'blwch adborth rhithiol' er mwyn rhannu adborth, cyflwyno ymholiadau, sylwadau neu faterion o bryder. Mae'r gwasanaeth yn ffrwd ychwanegol i'r cyfathrebu rheolaidd sy'n digwydd rhwng tiwtoriaid a'r dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi bod eu llais yn cael clust gan y darparwr, ac mae'r tiwtoriaid yn hysbysu'r dysgwyr ynghylch y modd yr ymatebwyd i'w sylwadau a'r syniadau er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chefnogi'r dysgwyr yn gyson.

Mae bron bob dysgwr yn cytuno bod y tiwtoriaid yn cynnig arweiniad da ac yn diwallu eu hanghenion yn gyson, ac yn gwybod eu bod yn gallu troi atynt am help yn ôl y galw. Caiff hyn ei gynllunio'n ffurfiol trwy gyfarfodydd penodol neu anffurfiol trwy'r defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r llawlyfrau pwrpasol sydd wedi eu haddasu ar gyfer eu cyfer ar gyrsiau penodol, a fersiynau hwylus ar ffurf cylchgrawn digidol a chlipiau fideo hygyrch i'w cyfeirio at y cwrs mwyaf addas ar eu cyfer.

Mae dysgwyr yn hanu o ystod eang o gefndiroedd, tras a diwylliannau, ac mae'r rhan fwyaf yn elwa o fod yn aelod o'r gymuned dysgu Cymraeg ble maent yn parchu ei

gilydd ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol. Mae hyn yn ei dro yn creu gwasanaeth gwerthfawr a chefnogol ar gyfer pob dysgwr.

Mae bron bob dysgwr yn arddel ymagwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg ac yn hynod werthfawrogol o'u tiwtoriaid a'u cyd-ddysgwyr, gan ddangos parch, dealltwriaeth a chydymdeimlad o fewn y gwersi. Maent yn cydweithio'n adeiladol ac yn hwyliog ar dasgau, ac maent yn ymateb yn rhagweithiol heb farnu y dysgwyr hynny sy'n profi anawsterau neu'r rheiny sydd, o bosibl, heb lwyddo i fynyachu eu dosbarthiadau'n rheolaidd.

Mae llawer o ddysgwyr yn gosod amcanion pwrpasol i'w hunain wrth ddysgu Cymraeg. Mae llawer ohonynt yn elwa o ddarpariaeth ategol fel 'Sadwrn Siarad' a 'Choffi a Chlonc' sy'n eu cefnogi i siarad Cymraeg yn gynyddol ddigymell. Hyrwyddir digwyddiadau sefydliadau eraill fel y fenter iaith sydd hefyd yn gwella profiad dysgu Cymraeg dysgwyr trwy rwydweithiau cymdeithasol. Mae'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r croeso twymgalon, ac yn dod i deimlo'n rhan o fwrlwm cymuned Gymraeg ehangach.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r darparwr yn cynllunio arlwy eang o gyrsiau dysgu Cymraeg wyneb-yn-wyneb a rhithwir yn y brifysgol ac mewn ychydig o leoliadau i drigolion y brifddinas a thu hwnt. Trwy hyn, caiff anghenion dysgwyr eu diwallu'n effeithiol wrth ennyn a chynnal eu diddordeb mewn cyrsiau sy'n cael eu cyflwyno ar amseroedd a chyfnodau sy'n gyfleus iddynt ddysgu. Mae'r darparwr yn cynnig cyrsiau prif ffrwd o lefel mynediad hyd at uwch, gan gynnwys darpariaeth dwys a chyfunol yn llwyddiannus.

Un o gryfderau'r darparwr yw'r gallu i gynnig gwersi Cymraeg sydd wedi eu teilwra i ddysgwyr yn y gweithle, sy'n cynnwys Cyngor Caerdydd a Chymdeithas Pêl-droed Cymru. Yn ogystal, mae'r bartneriaeth gadarn sydd wedi datblygu fel rhan o'r ddarpariaeth brosiect gyda sefydliadau amrywiol fel Gwasanaeth Eryl y Goron a Chanolfan Mileniwm Cymru, yn cael ei darparu'n effeithiol wrth gefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan naturiol o'u gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r ymgysylltu â dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd, er enghraifft o'r gymuned ceiswyr lloches a ffoaduriaid, yn llwyddiannus wrth i deuluoedd symud i faestrefi amrywiol ar draws y brifddinas. O ganlyniad, mae'r cynllunio bwriadus a'r marchnata llwyddiannus yn cefnogi dysgwyr ar bob lefel i fwynhau a gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg.

Mae gweithlu'r darparwr yn cynnwys tiwtoriaid amser llawn a thiwtoriaid cysylltiol sy'n cael eu harwain yn fedrus gan dîm gweithgar o staff. Un o nodweddion amlycaf y darparwr yw'r modd mae arweinwyr yn gweithredu'n barhaus i ddatblygu a chysoni arferion addysgu a'r dysgu effeithiol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn blaenoriaethu themâu misol fel dulliau drilio effeithiol, fel rhan o drafodaethau staff yn y Pwyllgor Ansawdd, Cwricwlwm a Hyfforddiant. Yn ogystal, caiff tiwtoriaid cysylltiol eu gosod gyda mentor sy'n gweithio'n amser llawn i'r darparwr er mwyn eu cefnogi gyda gwahanol agweddau o addysgeg. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi tiwtoriaid i wella eu medrau addysgu'n barhaus mewn diwylliant cefnogol.

Rhinwedd nodedig ym medrau addysgu'r tiwtoriaid yw'r modd maent yn hwyluso'r dysgu mewn amgylchedd dysgu cynhaliol. Mae hyn yn annog y rhan fwyaf o ddysgwyr i ddatblygu eu medrau heb ofn methu. Mae'r tiwtoriaid yn adnabod anghenion lles a dysgu'r dysgwyr yn effeithiol sy'n eu helpu i addasu a mireinio'r

ddarpariaeth er mwyn diwallu eu hanghenion yn llawn. Er enghraifft, mae'r tiwtoriaid yn defnyddio'r iaith darged yn hynod effeithiol ac yn cyfoethogi gwybodaeth dysgwyr am iaith yn gynnil, wrth iddynt ddwysáu eu dealltwriaeth o nodweddion iaith ffurfiol ac anffurfiol wrth drafod ffilm 'Y Sŵn'. At ei gilydd, mae llawer o diwtoriaid yn hyrwyddo medrau darllen dysgwyr yn gyson wrth drafod erthyglau cyfoes, er enghraifft. Datblygir medrau ysgrifennu dysgwyr yn briodol, mewn tasgau gwaith cartref gan amlaf. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi pob dysgwr i fireinio a gwella eu medrau llafar ymhellach trwy weithgareddau darllen ac ysgrifennu buddiol.

At ei gilydd, mae llawer o diwtoriaid yn helpu dysgwyr i ynganu geiriau'n gywir trwy amrywio'r dulliau dysgu, er enghraifft wrth ailadrodd mewn gweithgaredd pâr a grŵp. Maent yn annog cyfranogiad llawn y dysgwyr yn y dysgu ac yn rhoi hwb i'w hyder i wrando ac efelychu patrymau iaith, er enghraifft wrth ganu hwiangerddi i gyfeiliant iwcalili. Mae hyn yn cefnogi dysgwyr i ymgolli ymhellach yn y gwersi ac i ddyfalbarhau a mwynhau'r dysgu.

Mae gan bron bob tiwtor ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd ym medrau pob dysgwr. Er enghraifft, maent yn holi'r dysgwyr yn gelfydd ac yn cefnogi cynnydd ym medrau siarad dysgwyr yn hynod effeithiol wrth ddarparu amser iddynt feddwl i ddwyn geirfa a phatrymau cystrawennol i gof. Mae'r amser gwerthfawr hwn, ynghyd â disgwyliadau diwyro tiwtoriaid, yn cefnogi dysgwyr i gyfathrebu yn Gymraeg yn unig drwy gydol y wers. Yn gyffredinol, mae'r adborth ysgrifenedig yn cefnogi'r dysgwyr i wella eu medrau, er enghraifft wrth helpu dysgwyr i ysgrifennu e-bost yn y Gymraeg fel rhan o'u dyletswyddau yn y gwaith.

Darperir ystod eang o weithgareddau atodol ac anffurfiol sy'n cymhell dysgwyr i ymarfer siarad Cymraeg ar-lein ac wyneb-yn-wyneb. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'u medrau llafar wrth gadw'n heini, ac yn dysgu am hanes Caerdydd yn fuddiol mewn teithiau tywys diddorol. Yn ogystal, caiff dysgwyr gyfle i werthfawrogi profiad enwogion o ddysgu Cymraeg wrth eu cyfweld fel rhan o'r rhaglen deledu 'Stori'r Iaith', er enghraifft. Wrth i niferoedd dysgwyr Cymraeg gynyddu'n flynyddol, darperir 'aduniad' iddynt yng ngŵyl Tafwyl fel rhan o'r bartneriaeth effeithiol rhwng y darparwr a Menter Caerdydd. O ganlyniad, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau siarad mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol sy'n hybu perthnasoedd â'u cyd-ddysgwyr yn llwyddiannus mewn cymuned glós a chynhwysol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gan y tiwtoriaid wybodaeth drylwyr am eu dysgwyr, eu diddordebau a'u cynnydd ar draws yr ystod lefelau. Mae'r arweinwyr yn hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth am gynnydd dysgwyr yn effeithiol, er enghraifft pan fydd dysgwr yn trosglwyddo o un cwrs i'r llall yn ystod y flwyddyn. Maent yn annog tiwtoriaid i drafod amcanion datblygiad dysgwyr fel rhan annatod o'u gwaith. Mae hyn yn ddull effeithiol o hybu ymwybyddiaeth dysgwyr o'u cynnydd, i fagu hyder, ac i ddathlu llwyddiant a chefnogi eu lles yn effeithiol.

Mae'r darparwr yn rhoi ystyriaeth lawn i wahanol anghenion y dysgwyr. Yn ystod y cyfnod cofrestru a thrwy gydol y flwyddyn, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd buddiol i rannu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw gymorth ychwanegol y teimlant y byddai'n fanteisiol iddynt. Mae'r darparwr yn ymateb yn sensitif a rhagweithiol i'r dyheadau

hyn, trwy gynnig sesiynau cefnogi ffurfiol ac anffurfiol i drafod anghenion dysgwyr unigol.

Mae'r staff yn darparu cefnogaeth hynod effeithiol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, er enghraifft wrth addasu'n gelfydd i ddiwallu eu anghenion wrth iddynt ddygymod â heriau synhwyrdd. Mae'r tiwtoriaid yn addasu'r dulliau addysgu'n greadigol er mwyn sicrhau gwasanaeth sy'n gynhwysol i bawb. Yn ogystal, mae'r dysgwyr yn elwa'n sylweddol ar y gefnogaeth ehangach sydd ar gael i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd mewn meysydd pwysig fel cefnogi iechyd meddwl a gorbryder.

Mae arweinwyr yn darparu cymorth hynod effeithiol ar gyfer dysgwyr sy'n ei chael yn anodd dygymod â gofynion dysgu yn y dosbarth am wahanol resymau. Er enghraifft, maent yn hwyluso'r broses o ymuno â grŵp gwahanol, neu ymuno â dosbarth rhithwir yn hytrach na mynychu wyneb-yn-wyneb. Mae'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gynhaliol hon ac yn dweud ei bod yn sicrhau eu bod yn parhau i allu ymgysylltu â'r gwasanaeth a mwynhau dysgu Cymraeg.

Mae arweinwyr yn talu sylw arbennig i ymgysylltu â dysgwyr yn y gymuned. Maent yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd, er enghraifft trwy wefannau, pamffledi a chylchlythyrau digidol defnyddiol. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn cyfleu eu bod yn ymgysylltu'n llawn â digwyddiadau Cymraeg ar draws y brifddinas. Enghraifft nodedig o hyn yw'r 'Cynllun Siarad' lle mae tiwtoriaid ynparu dysgwyr ag aelodau'r gymuned er mwyn iddynt sgwrsio'n naturiol mewn sefyllfa gymdeithasol. Mae hyn yn hybu hyder a lles y dysgwyr sy'n cymryd rhan yn hynod lwyddiannus.

Mae'r darparwr yn hybu'r 'gronfa wrth gefn' yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn hygyrch ar gyfer pob dysgwr sy'n awyddus i ddefnyddio'r gwasanaeth. Mae arweinwyr yn cyfeirio darpar ddysgwyr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau personol, at ffynonellau ariannol posibl er mwyn eu denu a'u hannog i ddysgu Cymraeg. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn ymateb i ofynion dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi digidol yn dda trwy eu cyfeirio at gronfeydd penodol er mwyn sicrhau teclynnau pwrpasol i gefnogi'r dysgu. Yn ogystal, mae tiwtoriaid yn darparu gwrslyfrau yn rhad ac am ddim, gan wneud eu gorau i gefnogi pob unigolyn sy'n awyddus i ddysgu gyda'r darparwr.

Mae gweledigaeth y darparwr yn glir ac wedi ei seilio ar ehangu cyfleoedd i ddysgu'r iaith a chyfranogi yn y diwylliant Cymraeg. Mae ymwybyddiaeth arweinwyr a thiwtoriaid o bwysigrwydd ymestyn allan i gymunedau amrywiol yn nodwedd ragorol o'u gwaith. Mae cyfleoedd ar gael i gynulleidfaoedd newydd brofi a mwynhau'r Gymraeg. Er enghraifft, caiff mamau o dras Mwslimaidd eu cefnogi i ddysgu'r iaith a chymathu yn eu cymunedau yn y brifddinas.

Mae gweithdrefnau i ddysgwyr fynegi barn ynglŷn â'r gwasanaeth wedi gwreiddio'n gadarn. Mae'r defnydd o'r 'blwch adborth rhithiol' sydd ar gael i ddysgwyr trwy system electronig hylaw yn nodwedd hynod effeithiol. Mae'n darparu cyfle i ddysgwyr rannu unrhyw sylw neu bryder. Mae'r strwythur hwn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar elfennau rheolaethol y gwasanaeth. Er enghraifft, lle codir pryder ynglŷn â safonau'r addysgu, mae'r wybodaeth yn cael ei chyfeirio'n uniongyrchol at yr arweinwyr sydd â chyfrifoldeb am addysgu a hyfforddiant.

Mae DCC yn cynnal diwylliant cryf o ddiogelu. Mae gan y darparwr drefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr sy'n bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth uchelgeisiol a chadarn ar gyfer darparu gwasanaeth o safon uchel ynghyd â strategaeth glir sy'n hybu nodau ac amcanion y GDCG yn effeithiol iawn. Mae'r Cyfarwyddwr yn arwain gydag angerdd ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn o'i hun, y tîm arwain, y tiwtoriaid a'r dysgwyr.

Mae'r tîm arwain yn cydweithio'n hynod effeithiol ac yn gweithredu dyletswyddau clir a synhwyrol sy'n sicrhau bod eu harbenigeddau'n cael eu defnyddio'n llawn er budd y dysgwyr. Maent yn darparu cefnogaeth benigamp i'r tiwtoriaid, gan gynnal a meithrin eu datblygiad er mwyn sicrhau profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'r ddysgwyr. Enghraifft nodedig o hyn yw'r Pwyllgor Ansawdd, Cwricwlwm a Hyfforddiant sy'n rhoi fforwm i'r tiwtoriaid drafod pa gefnogaeth maent yn dymuno ei derbyn a rhoi mewnbwn i'r cynlluniau gweithredu er mwyn gwella a datblygu'r ddarpariaeth. Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd safonol a chynhwysfawr ac maent yn glir o ran eu dyletswyddau hwy a rhai eu cydweithwyr.

Mae'r strwythur staffio yn blaenoriaethu swyddi amser llawn sy'n cynnig llwybr gyrfa effeithiol i diwtoriaid. Mae hyn wedi galluogi'r darparwr i weithio mewn modd uchelgeisiol, er enghraifft wrth ddarparu tiwtoriaid i ddysgu Cymraeg i aelodau a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddarpariaeth yn rhan allweddol o Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae llinellau cefnogaeth ac atebolrwydd clir yn bodoli rhwng y Cyfarwyddwr a Phennaeth yr Ysgol. Mae'r brifysgol yn ymwybodol o gyfraniad y darparwr i strategaeth hir dymor y Gymraeg o fewn y brifysgol ac yn cefnogi cydweithio ehangach rhwng y gwasanaeth ac adrannau academiaidd. Er enghraifft, maent wedi adeiladu ymhellach ar lwyddiant y gwaith sydd wedi digwydd gyda'r Ysgol Feddygaeth lle lluniwyd rhaglen o gyrsiau blasu byr ar gyfer dros 100 o fyfyrwyr oedd ar fin treulio amser ar wardiau.

Mae uchelgais y darparwr ar ran ei staff a'i ddysgwyr yn arwain at hunanwerthuso cyson a pharhaus er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella er mwyn parhau i godi safonau. O ganlyniad, mae'r trefniadau hunanwerthuso yn gynhwysfawr ac yn seiliedig ar amrediad eang o dystiolaeth yn cynnwys data arsylwadau, barn y dysgwyr a'r gweithlu. Er enghraifft, mae'r darparwr wedi defnyddio'r data'n graff i wella tueddiadau dysgwyr megis cwblhau presenoldeb, ac ati. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad y dysgwyr hynny ac ar y ddarpariaeth yn gyffredinol.

Mae'r drefn arsylwi yn rhan greiddiol o'r broses hunanwerthuso ac mae penodi Tiwtor Hŷn sydd â chyfrifoldeb penodol am safonau dysgu a'r drefn arsylwi yn adlewyrchu ymroddiad yr arweinwyr i sicrhau eu bod yn gwerthuso cynnydd yn drylwyr a rheolaidd. Mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm i ddefnyddio'r fframwaith ansawdd cenedlaethol yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cynnydd pwrpasol. Maent yn darparu amrediad eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol i diwtoriaid amser llawn a'r rhai cysylltiol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r darparwr, er enghraifft wrth ddatblygu medrau tiwtoriaid i ddefnyddio apiau digidol yn effeithiol, ac

wrth eu cefnogi i sicrhau dilyniant llwyddiannus i ddysgwyr yn eu dysgu. Mae effaith yr hyfforddiant yn cael ei dadansoddi a'i gwerthuso'n barhaus ac yn rhan effeithiol o raglen werthuso a monitro perfformiad pob aelod o staff.

Mae'r holl sesiynau dysgu proffesiynol yn cael eu recordio a'u rhannu yn ôl y galw er mwyn annog cyfranogiad. Yn gyffredinol, caiff hyn ddylanwad cadarnhaol ar gysondeb dulliau addysgu ar draws y ddarpariaeth. Yn ogystal, mae pob tiwtor cysylltiol wedi eu paru â thiwtor amser llawn sy'n gallu cynnig cefnogaeth hyblyg o fewn diwylliant sydd wedi ei seilio ar gefnogaeth a her. O ganlyniad, mae'r tiwtoriaid yn hynod werthfawrogol o'r gynhaliaeth gyson a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarperir yn fwriadus ar eu cyfer.

Rheolir cyllideb y ddarpariaeth yn effeithiol gan y Cyfarwyddwr a Phennaeth yr Ysgol gan fanteisio ar arian prosiectau er mwyn hybu a gwella'r gwasanaeth. Mae Prifysgol Caerdydd yn brigdorri 15% o'r cyllid sy'n cyfrannu at gefnogaeth ymarferol gan wasanaethau'r brifysgol fel adnoddau dynol.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddogfenniadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 29/08/2023